

Rasys Burum (30 munud)

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm (CA2):

Gwyddoniaeth: Gweithio'n wyddonol; Pethau byw a'u cynefinoedd

Saesneg: Darllen a Deall

ABGI: Thema Graidd 1 – Iechyd a Lles

Dylunio a thechnoleg: Coginio a Maethiad

Mathemateg: Cymharu mesuriadau

Nodau Dysgu i Gyfnod Allweddol 2:

Bydd yr holl fyfyrwyr yn:

- deall bod rhai microbau'n gallu ein cadw ni'n iach.

Bydd y mwyafrif o fyfyrwyr yn:

- deall bod modd defnyddio rhai microbau er daioni.

Bydd rhai myfyrwyr yn:

- gwybod bod microbau'n tyfu ar wahanol gyflymder yn dibynnu ar eu hamgylchedd.

Asesiad Risg:

Os bydd achos o haint yn cychwyn, efallai y bydd angen i chi addasu'r gweithgaredd hwn i sicrhau bod pawb yn cadw pellter cymdeithasol neu feini prawf eraill yn unol â pholisi eich ysgol. Anfonwch e-bost at y tîm e-Byg yn e-Bug@phe.gov.uk os byddwch eisiau trafod syniadau neu addasiadau i'r gweithgaredd hwn sy'n angenrheidiol er mwyn dilyn y canllawiau yn eich lleoliad.



Mae'r gweithgaredd hwn i'w gael yn y pecyn ar gyfer CA2 ond byddai'n briodol i grwpiau cymunedol hefyd (Trechu'r Bygiau). (Mae gweithgaredd tebyg sy'n archwilio **eplesiad iogwrt** yn y pecynnau CA3). Mae'n tynnu sylw at y microbau buddiol a ddefnyddiwn yn y diwydiant bwyd. Byddwch yn defnyddio'r ffwng defnyddiol – burum – i esbonio sut mae toes bara'n codi drwy'r broses o eplesiad. Mae'r burum yn bwyta'r siwgrau sy'n bresennol mewn bwyd ac yn cynhyrchu asidau. Mae'r asidau hyn yn newid blas, arogl a ffurf y bwyd.

Cyn i chi ddechrau, byddwch angen:

- Y cefndir a'r cynlluniau gwersi o “1.2 Microbau defnyddiol” yn y pecyn CA2 neu “Cwrdd â'r Bygiau” yn y pecyn Trechu'r Bygiau.
- Copïau o daflenni gwaith neu daflenni dosbarth i bob cyfranogwr
- Rysáit “Rasys Burum” yn CA2 ac yn Trechu'r Bygiau
- Blawd, siwgr a burum sych
- Gwydrau tal, silindrau gyda graddnodau arnynt neu gwpanau plastig
- Tâp a beiro ar gyfer creu labeli

Cliciwch yma i agor yr adnoddau ar gyfer y gweithgaredd hwn i **Gyfnod Allweddol 2** neu **grwpiau cymunedol** neu weithgaredd tebyg gan ddefnyddio **eplesiad iogwrt** yn y pecynnau CA3.

Defnyddiwch y cyflwyniad yng nghynllun y wers neu'r adran drafod i adolygu'r canlynol gyda'r dosbarth:

- Sut mae microbau yn ddefnyddiol a niweidiol.
- Bod microbau'n gallu ein helpu i dreulio ein bwyd neu ei droi'n fathau eraill o fwyd rydyn ni'n eu mwynhau e.e. iogwrt, caws a menyn.
- Bod burum yn ffwng sy'n bwyta siwgr ac yn cynhyrchu asid a nwy. Mae hyn yn achosi i'n bara godi ac mae'n newid ei blas.

Defnyddiwch y camau nesaf i'ch tywys drwy'r gweithgaredd hwn

- Cyn cychwyn y gweithgaredd gwnewch doddiant burum hylifol fel sydd wedi'i amlinellu ar becyn y burum, gyda ddŵr a burum sych. Gallai hyn amrywio rhwng gwahanol frandiau. Os byddwch yn ei wneud yn rhy fuan o flaen llaw bydd y burum yn dechrau eplesu. DS: Peidiwch ag ychwanegu siwgr nes y bydd yn nodi hynny yn y prif weithgaredd.
- Rhannwch y cyfranogwyr yn grwpiau a gofynnwch i bob grŵp labelu dwy gwpan A a B a rhowch bedwar llwy bwdin o flawd ymhob cwpan.
- Ychwanegwch y toddiant burum i gwpan A a'i gymysgu nes y bydd o drwch tebyg i ysgythaeth trwchus. Gwnewch yr un peth i gwpan B ond defnyddiwch y toddiant burum gyda siwgr wedi'i ychwanegu.
- Tywalltwch 30ml o'r cynnwys i mewn i'r silindr A a B gyda graddnodau arnynt (neu wydr tal gyda marciau 30ml).
- Rhowch y ddau silindr/gwydr mewn basn o ddŵr poeth a defnyddio Taflen waith y myfyriwr 1 i gofnodi uchder y toes bob 5 munud.

Fideo (1:21): [Rasys Burum](#)

Defnyddiwch y sesiwn werthuso neu'r cwestiynau trafod i sicrhau bod y cyfranogwyr wedi deall y gweithgaredd pan ddaw i ben. Yna cwblhewch gynllun gweithredu (Trechu'r Bygiau).